County Hall
Rhadyr
Usk
NP15 1GA

Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2019

Hysbysiad o gyfarfod

Pwyllgor Archwilio

Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2019 at 2.00 pm, Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA

AGENDA

Item No	Item	Pages
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Fforwm Agored i'r Cyhoedd	
4.	I nodi Rhestr Weithred y cyfarfod diwethaf	1 - 2
5.	Trosolwg o Drefniadau Rheoli Perfformiad	3 - 16
6.	Pwyllgor Archwilio: Hunanarfarnu	
7.	Adroddiad Trysorlys Canol Blwyddyn	17 - 30
8.	Diweddariad a datblygiad Q2	To Follow
9.	Cyfrifon Archwiliedig Cronfa Degwm Cyngor Sir Fynwy	To Follow
10.	ISA 260 neu Gyfwerth ar gyfer Cronfeydd Ymddiriedolaeth	To Follow
11.	Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol	31 - 36
12.	I gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel y 9fed o Ionawr 2020	

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:	P White P. Clarke A. Easson M.Feakins J. Higginson M.Lane P. Murphy V. Smith B. Strong J.Watkins S.B. Jones J. Saunders

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.